

Bwrdd Taliadau Annibynnol

16 Medi 2013

Cais am Wybodaeth.

Diolch ichi am eich cais, a ddaeth i law ar 22 Awst, pan wnaethoch ofyn y canlynol:

- 1. A fydddech cystal â nodi nifer y bobl sy'n cymryd rhan weithredol yn y 'Bwrdd Taliadau Annibynnol', ynghyd â'u statws unigol o fewn y corff hwnnw.*
- 2. Nodwch nifer y bobl sy'n cymryd rhan weithredol yn y 'Bwrdd Taliadau Annibynnol' ac sydd wedi dal swyddi ar unrhyw lefel yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar unrhyw adeg.*
- 3. Nodwch y corff sy'n gyfrifol am gynhالياeth, taliadau, taliadau bonws a chyflogau'r 'Bwrdd Taliadau Annibynnol'.*
- 4. Nodwch nifer y bobl sy'n cymryd rhan weithredol yn 'Swyddfa Archwilio Cymru', ynghyd â'u statws unigol o fewn y corff hwnnw.*
- 5. Nodwch nifer y bobl sy'n cymryd rhan weithredol yn 'Swyddfa Archwilio Cymru' ac sydd wedi dal swyddi ar unrhyw lefel yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar unrhyw adeg.*
- 6. Nodwch y corff sy'n gyfrifol am gynhالياeth, taliadau, taliadau bonws a chyflogau Swyddfa Archwilio Cymru.*

Byddwn yn ateb bob cwestiwn yn unigol:

- 1. A fydddech cystal â nodi nifer y bobl sy'n cymryd rhan weithredol yn y 'Bwrdd Taliadau Annibynnol', ynghyd â'u statws unigol o fewn y corff hwnnw.*

Mae'r Bwrdd yn cynnwys pum aelod, yn cynnwys y cadeirydd.

Gellir gweld eu proffiliau yma <http://www.cynulliadcymru.org/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-allow-pay->

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

pensions/remuneration_board/members-remuneration-board-information/members-remunerationboardbiographies.htm

Darperir ysgrifenyddiaeth iddo gan weithwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

2. Nodwch nifer y bobl sy'n cymryd rhan weithredol yn y 'Bwrdd Taliadau Annibynnol' ac sydd wedi dal swyddi ar unrhyw lefel yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar unrhyw adeg.

Ni chafodd unrhyw aelod o'r Bwrdd Taliadau ei gyflogi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

3. Nodwch y corff sy'n gyfrifol am gynhالياeth, taliadau, taliadau bonws a chyflogau'r 'Bwrdd Taliadau Annibynnol'.

Cafodd y bwrdd ei sefydlu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010. Mae Comisiwn y Cynulliad yn dal y cyfrifoldebau a restrir. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth wedi'i chyhoeddi yn adroddiad blynyddol y bwrdd, sydd ar gael yma:

http://www.cynulliadcymru.org/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-allow-pay-pensions/remuneration_board.htm

4. Nodwch nifer y bobl sy'n cymryd rhan weithredol yn 'Swyddfa Archwilio Cymru', ynghyd â'u statws unigol o fewn y corff hwnnw.

Dylid cyfeirio'r cwestiwn hwn at Swyddfa Archwilio Cymru – dyma linc i'w safle:

<http://www.wao.gov.uk/>

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol, o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, am benodi aelodau anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r broses recriwtio yn mynd rhagddi ar hyn o bryd; ni wnaed unrhyw benodiadau hyd yma.

5. Nodwch nifer y bobl sy'n cymryd rhan weithredol yn 'Swyddfa Archwilio Cymru' ac sydd wedi dal swyddi ar unrhyw lefel yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar unrhyw adeg.

Cyfeiriwch at ein hateb i gwestiwn 4.

6. Nodwch y corff sy'n gyfrifol am gynhالياeth, taliadau, taliadau bonws a chyflogau Swyddfa Archwilio Cymru.

Cyfeiriwch at ein hateb i gwestiwn 4.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n pennu lefelau'r taliadau ar gyfer yr aelodau anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm

Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

Buddug Saer

Swyddog Rhaglenni

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am
Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld
Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod
wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr
a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir
egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar
gael ar ein gwefan yn [www.cynulliadcymru.org/conhome/con-
complaint.htm](http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm). Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled o'r cod.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl
i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.
Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Buddug Saer
Swyddog Rhaglenni
Cynulliad Cenedlaethol Cymru